# Cynnal gweithredoedd puro cregynbysgod

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â phuro cregynbysgod. At ddiben y safon hon, "puro" yw'r broses a ddefnyddir i buro cregynbysgod deuglawr i gyflwr sydd yn addas i bobl eu bwyta. Mae'n gofyn bod gwaith yn cael ei gwblhau yn unol â gweithdrefnau gweithredu safonol y safle.

Mae'r safon hon yn cynnwys y gallu i wneud y gweithgareddau puro canlynol:

- paratoi cregynbysgod a chyfarpar
- llwytho cregynbysgod i gael eu puro
- gwirio amodau amgylcheddol
- dadlwytho cregynbysgod wedi eu puro
- labelu cregynbysgod ar gyfer eu cludo
- cludo cregynbysgod wedi eu puro
- glanhau cyfleusterau puro

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn cynnal gweithgareddau puro cregynbysgod.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwneud gwaith yn ddiogel yn unol â'r gofynion iechyd a diogelwch perthnasol
2. paratoi system buro ar gyfer derbyn dŵr sterileiddio a chregynbysgod, gan gynnal amodau gwaith glân
3. paratoi a chyflyru cregynbysgod yn barod i'w hychwanegu i'r system buro
4. llwytho cregynbysgod i systemau puro ar ddwysedd penodedig
5. gwirio amodau amgylcheddol yn y system buro i gyflawni'r puro gofynnol
6. adrodd am unrhyw broblemau gyda'r broses buro
7. dadlwytho cregynbysgod ar ôl cael eu puro, mewn ffordd sydd yn lleihau'r straen a achosir i'r cregynbysgod ac yn osgoi ailhalogi
8. golchi, paratoi a labelu cregynbysgod ar gyfer eu cludo
9. glanhau'r cyfleusterau puro i gyflwr glân yn barod ar gyfer y swp nesaf o gregynbysgod
10. darparu gwybodaeth i gadw cofnodion puro a chludo cregynbysgod i fodloni gofynion cyfreithiol â ***'r*** gofynion y safle.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion iechyd a diogelwch perthnasol sydd yn gysylltiedig â'r broses buro
2. y gofynion hylendid a diogelwch bwyd sydd yn gysylltiedig â phuro a'ch cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelwch bwyd
3. problemau iechyd dynol cyffredin y gellir eu hachosi gan gregynbysgod sydd heb gael eu puro
4. y gofynion cyfreithiol y broses buro
5. pam mae cregynbysgod yn cael eu golchi cyn eu puro
6. pam y mae'n bwysig symud cregynbysgod marw neu wedi eu niweidio cyn i'r puro ddechrau
7. pam y mae'n bwysig cadw at lefelau dwysedd penodedig wrth lwytho cregynbysgod i mewn i'r system buro
8. yr amodau amgylcheddol sydd yn ofynnol ar gyfer puro effeithiol
9. y dosbarthiadau a roddir i ardaloedd tyfu cregynbysgod a sut mae hyn yn effeithio ar ofynion puro
10. y gofynion Dadansoddi Peryglon a Mannau Rheoli Hanfodol (HACCP) mewn perthynas â'r broses buro
11. sut mae cregynbysgod yn dioddef straen a pham y mae'n bwysig lleihau'r straen a achosir
12. sut i gludo cregynbysgod fel bod eu hansawdd yn cael ei gynnal
13. y gofynion labelu ar gyfer cludo cregynbysgod
14. arwyddocâd halogiad cregynbysgod i iechyd y cyhoedd
15. y gofynion amser cyfreithlon ar gyfer puro
16. cyfyngiadau'r broses buro
17. gweithdrefn y safle ar gyfer ymdrin â chregynbysgod marw neu wedi eu niweidio
18. y gofynion cyfreithiol â'r gofynion y safle ar gyfer cadw cofnodion puro a chludo cregynbysgod, yn cynnwys gwybodaeth sydd yn ofynnol ar gyfer eu holrhain

## Geirfa

**amodau amgylcheddol** – tymheredd, llif dŵr, lleidiogrwydd, halltedd, ocsigen toddedig

**paratoi a chyflyru cregynbysgod** – golchi, symud cregynbysgod marw, symud cregynbysgod wedi eu niweidio

Cynnal gweithredoedd puro cregynbysgod

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Ebr 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu8 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Dyframaethu, Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | cregynbysgod; puro |